# Her yr Hinsawdd yng Nghonwy


Mehefin 2025



**Erbyn hyn mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 30 o gerbydau trydan yn ein fflyd, mae hyn yn cynnwys:**

- 5 o geir y Cyngor
- 16 o faniau bach
- 2 o ysgubwyr ffordd
- 7 o gerbydau casglu deunyddiau ailgylchu

Mae'r cerbydau hyn wedi disodli cerbydau diesel a phetrol a byddant yn helpu'r Cyngor i leihau'r allyriannau o'n fflyd.



**Yn ystod 2024/25, defnyddiwyd cyllid grant Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon o'r adeiladau sy'n perthyn i ni ac y gweithredwn:**

- Disodli hen foeleri olew gyda phympiau gwres yr awyr mewn ysgol wledig, Ysgol Bro Aled.
- Gosod paneli solar yn 7 o'n hysgolion: Ysgol Glanwydden, Ysgol Nant y Groes, Ysgol Ffordd Dyffryn, Ysgol Cynfran, Ysgol Porth y Felin, Ysgol y Creuddyn ac Ysgol St Joseph.
- Gosod gorsafoedd gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer cerbydau ein fflyd mewn 4 safle ychwanegol y Cyngor.

**Yn ystod 2025/26, bydd cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i leihau allyriadau carbon ymhellach o'r adeiladau sy'n perthyn i ni ac y gweithredwn:**

- Gosod paneli solar ar fwy o'n hysgolion: Ysgol Awel y Mynydd, Ysgol Bro Aled, Ysgol Bro Cernyw, Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Cerrigydrudion, Ysgol Pentrefoelas, Pentrellyncymer, Ysgol Tudno, Ysgol Hen Golwyn, Ysgol Pencae ac Ysgol y Plas.
- Cyflawni gwaith i leihau'r allyriadau carbon o Ganolfan Hamdden Abergele, yn cynnwys datgarboneiddio'r system wresogi a gosod paneli solar.

Gan ddefnyddio cyllid **Partneriaeth Natur Leol**, cyllid **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** a gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol, mae nifer o gynefinoedd wedi cael eu creu ar draws y sir, a fydd yn atafaelu symiau mwy o garbon nag y math o dir y maent wedi eu disodli megis glaswelltir amwynder ac isadeiledd llwyd caled.

Mae'r cynefinoedd newydd yn cynnwys **ardaloedd bioamrywiaeth glaswelltir** a reolir fel dolydd; perllannau cymunedol; coed stryd; plannu coetir bach; gwrychoedd bwytadwy; creu pyllau; cynlluniau plannu peillwyr lluosflwydd; a llochesi bws byw gyda thoeau bywlys.

Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y cyfleusterau ar gael yn safleoedd y cyngor e.e. rhesel cadw beicio, gorsafoedd gwefru e-feiciau, agosatrwydd i safleoedd bws a gorsafoedd trên, ac os yw ceir y Cyngor ar gael o'r fan hynny, er mwyn helpu staff i ddefnyddio ffyrdd carbon isel o deithio i'r gwaith ac ar gyfer teithiau busnes.

**Cadwodd y Cyngor ardystiad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol.**

Yn 2023/24, roedd cyfanswm allyriadau carbon y Cyngor yn cyfateb i **45,212 tCO2e, gostyngiad o 19%** o flwyddyn sylfaen 2019/20.

This document is also available in English.

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL